Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Cymdeithasol** |
| **Lleoliad:** | **Gweithiwr Ystwyth / Cwm Coch, Ysbyty Aneurin Bevan, Rhodfa Calch, Glynebwy** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Swydd Rhif:** | **BG02917** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8 (£38,223 - £42,403 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Cyfnod Penodol (Mawrth 2025)** |

**Crynodeb Swydd**

Ydych chi'n barod i ddechrau ar antur gyffrous mewn gofal iechyd meddwl? Ymunwch â ni yn Nhîm Iechyd Meddwl Cymunedol Blaenau Gwent a bod yn rhan o amgylchedd deinamig, amrywiol a chyflym lle mae pob dydd yn dod â heriau a chyfleoedd newydd i wneud gwahaniaeth go iawn. Rydym yn edrych am Weithiwr Cymdeithasol angerddol i ymuno â'n tîm aml-ddisgyblaeth yng Nghwm Coch, Ysbyty Aneurin Bevan. Os ydych yn barod i roi eich sgiliau ar waith a gwella deilliannau ar gyfer rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus sy'n byw gyda salwch meddwl difrifol, dyma'r swydd i chi!

**Hysbyseb Lawn**

Camwch i swydd lle mae pob dydd yn dod â heriau a chyfleoedd newydd ar gyfer twf. Fel Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig gyda'n Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol bywiog, cewch eich hun ar flaen y gad mewn gofal trawsnewidiol ym Mlaenau Gwent. Gan gydweithio mewn trefniant amlddisgyblaeth yng Nghwm Coch, Ysbyty Aneurin Bevan, cewch eich cynnwys mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym lle bydd eich arbenigedd nid yn unig yn werthfawr ond yn hanfodol.

Bydd eich taith gyda ni yn cynnwys mynd i graidd gwasanaethau oedolion, lle byddwch yn trin sefyllfaoedd cymhleth gyda thrugaredd a gallu. Bydd cynnal asesiadau a llunio cynlluniau gofal a thriniaeth yn ail natur, wrth i chi alinio eich ymarfer gyda'r darpariaethau a gyflwynir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010). Bydd eich ymagwedd yn fwy na chlinigol: bydd yn holistig, gan gwmpasu cryfderau ac uchelgais unigryw pob unigolyn a'u rhwydwaith cefnogaeth.

Dychmygwch eich hun fel begwn o obaith, yn hyrwyddo adferiad ac annibyniaeth ar gyfer y rhai sy'n byw gyda salwch meddwl difrifol. P'un ai ydych yn Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) neu'n awyddus i weithio at y gymhwyster pwysig hwn, bydd ein tîm yn rhoi'r gefnogaeth a'r adnoddau rydych eu hangen i ragori.

Mae'n fwy na dim ond yr agwedd glinigol – mae am y perthnasoedd yr ydych yn eu hadeiladu, y straeon a glywch a'r bywydau yr ydych yn cyffwrdd â nhw. Byddwch yn biler o nerth ar gyfer unigolion a theuluoedd, yn dywysydd dibynadwy drwy ddyfroedd gofal iechyd meddwl, a all yn aml fod yn gythryblus. Caiff eich ymroddiad ei gyfateb gan fodlonrwydd gweld cynnydd, pa bynnag mor fach, a gwybod i chi fod â rhan hanfodol yn nhaith rhywun tuag at iechyd.

Yn y swydd hon byddwch yn fwy na dim ond Gweithiwr Cymdeithasol, byddwch yn gatalydd dros newid, yn fegwn gobaith ac yn rhan hanfodol o system cymorth eich cymuned. Os ydych yn barod i gael effaith go iawn, i'ch herio eich hun mewn ffordd na chredech yn bosibl, ac i fod yn rhan o rywbeth gwirioneddol arbennig, ymunwch â ni yn Nhîm Iechyd Meddwl Cymunedol Blaenau Gwent. Gyda'n gilydd, byddwn yn llunio llwybr tuag at yfory gwell i bawb.

**Amdanoch chi**

A ydych yn unigolyn trugarog ac egnïol gyda dymuniad gwirioneddol i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill? Fel Gweithiwr Cymdeithasol cymwys, rydych yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau hanfodol a hefyd ymroddiad dwfn i wasanaethu poblogaethau bregus gydag empathi ac uniondeb.

Rydym yn edrych am unigolyn sy'n ffynnu mewn amgylchedd deinamig sy'n symud yn gyflym ac yn angerddol am eirioli dros hawliau a llesiant y rhai mewn angen. P'un ai ydych yn weithiwr proffesiynol gyda blynyddoedd o brofiad mewn lleoliadau iechyd meddwl neu wedi graddio'n ddiweddar ac yn awyddus i roi eich gwybodaeth a sgiliau ar waith, rydym yn croesawu ymgeiswyr sy'n ymroddedig i ddysgu a thwf parhaus.

Bydd eich gallu i gyfathrebu'n effeithlon, meithrin perthnasoedd ystyrlon a chydweithio mewn lleoliad tîm yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y swydd hon. Gwerthfawrogwn creadigrwydd, cydnerthedd ac ymagwedd ragweithiol at ddatrys problemau, yn ogystal â pharodrwydd i groesawu heriau gyda brwdfrydedd a phenderfyniad.

**Buddion Blaenau Gwent**

Mae ymuno â Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Blaenau Gwent yn dod ag ystod o fuddion a deilwriwyd i gefnogi eich llesiant a'ch datblygiad gyrfa. O raglenni cynefino cynhwysfawr i drefniadau gweithio hyblyg a chyflogau cystadleuol, rydym yn rhoi blaenoriaeth i'ch twf a'ch bodlonrwydd. Gyda chyfleoedd ar gyfer cynnydd gyrfa, hyfforddiant a chefnogaeth i gwblhau'r cymhwyster AMHP, byddwch yn canfod amgylchedd cefnogol lle caiff eich cyfraniadau eu gwerthfawrogi a'u cydnabod. Byddwch hefyd yn mwynhau 26 diwrnod o wyliau blynyddol (gan godi i 31 ar ôl 5 mlynedd), opsiynau gweithio ystwyth a'r cyfle i weithio wrth ochr cydweithwyr cefnogol ac arweinyddiaeth gryf.

Rydym eisiau i chi fod yn rhan o'n llwyddiant – gwnewch gais nawr!

**Hoffech chi ofyn cwestiwn i ni?**

Os hoffech gwrdd â'r tîm neu gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â:
Laura Harbinson | Laura.Harbinson@blaenau-gwent.gov.uk | 07968476067

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd lenwi cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.**

**Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol https://socialcare.wales**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau: 25/04/2024** **Dyddiad Cyfweliadau: I'w gadarnhau**